




Gorffennol Digidol Digital Past - 2021

DRONAU, CYCHOD, LASERAU A RHAFFAU.

Astudio Effeithiau Newid Hinsawdd ar Safleoedd a Thirweddau Treftadaeth Arfordirol Cymru ac Iwerddon yn y Gorffennol, y Presennol a'r Dyfodol Agos

Louise Barker, Uwch-ymchwilydd ac archaeolegydd y prosiect [CHERISH](#), [CBHC](#)

Kieran Craven, Geowyddonydd morol a chydlynnydd y prosiect [CHERISH](#), [Geological Survey Ireland](#)




Pecyn offer CHERISH (© 2020 Carys Tait / Carys-ink.com)

[Gorffennol Digidol 2021](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan | 8^{ed} – 12^{ed} Chwefror 2021, ar-lein drwy Zoom.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English.

Bydd Louise Barker o'r Comisiwn Brenhinol a Dr Kieran Craven o Arolwg Daearegol Iwerddon yn cyflwyno CHERISH – Newid Hinsawdd a Threftadaeth Arfordirol, prosiect Iwerddon-Cymru a ariennir gan yr UE. Mae hwn yn dwyn ynghyd dîm amlddisgyblaethol o archaeolegwyr, daearegwyr a gwyddonwyr amgylcheddol sy'n defnyddio methodoleg arolygu ac ymchwilio gyfannol, ar rwydwaith o safleoedd arfordirol ac arforol yng Nghymru ac Iwerddon, i gofnodi a monitro effeithiau newid hinsawdd.

Mae CHERISH yn defnyddio dronau (UAVs), cyfarpar sganio 3D a bathymetreg acwstig i sefydlu data man cychwyn, gan greu cynhyrchion digidol fel modelau uchder, orthoddelweddau a modelau 3D i arsylwi, mapio a rhagweld newid mewn amgylcheddau arfordirol dynamig. Mae monitro safleoedd yn gyson hefyd yn ein galluogi i ddadansoddi a chymharu setiau data cyfres-amser er mwyn meintoli newid. Mae data digidol yn cael eu defnyddio hefyd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o effeithiau newid hinsawdd ar dreftadaeth arfordirol, er enghraifft, drwy gynhyrchu teithiau rhithwir drwy safleoedd archaeolegol a modelau printiedig 3D.



SS Idaho (© Hawlfraint y Goron. Prosiect CHERISH)

Mae CHERISH hefyd yn ymgymryd ag ymchwiliadau archaeolegol ar safleoedd sydd dan fygythiad er mwyn gwella ein dealltwriaeth a'n gwybodaeth. Yn y sgwrs hon fe fyddwn ni'n rhoi sylw arbennig i'n gwaith ym mryngaer arfordirol gynhanesyddol Dinas Dinlle yng Ngwynedd, lle mae'r gwaith ymchwilio yn cynnwys arolygon monitro digidol, arolygon archaeolegol, arolygon geoffisegol a chloddiaid, ac yn gofyn am hongian oddi ar raffau ar wyneb y clogwyn a gweithio gyda gwirfoddolwyr lleol ar ymyl yr arfordir. Darganfuwyd tŷ

[Gorffennol Digidol 2021](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan | 8^{ed} – 12^{ed} Chwefror 2021, ar-lein drwy Zoom.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English.

crwn carreg mewn cyflwr hynod o dda wedi'i gladdu o dan haenau dwfn o dywod, a ffurfiwyd, fe dybir, yn ystod cyfnodau stormus yn y gorffennol. Mae dyddio ymoleuedd (i ddyddio'r haenau o dywod) a gwaith palaeoamgylcheddol yn y dirwedd o gwmpas y gaer yn ein helpu i ail-greu amgylcheddau a hinsawdd y gorffennol, gan ddarparu cyd-destun tymor-hir ar gyfer risgiau heddiw ac yfory yn ogystal â chynnig golwg ar y tywydd eithafol y bu'n rhaid i gymunedau ymdopi ag ef ar hyd y canrifoedd.



Dinas Dinlle. (© Hawlfraint y Goron. CBHC)

Bywgraffiad

Uwch-ymchwilydd gyda Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru ac archaeolegydd ar y prosiect CHERISH yw Louise Barker. Mae'n gweithio fel archaeolegydd ers graddio o Brifysgol Newcastle ym 1996. Dechreuodd ei gyrfa mewn archaeoleg gontract cyn ymuno ag English Heritage ym 1999 ac yna'r Comisiwn Brenhinol yn 2004. Arbenigedd Louise yw arolygu a dehongli tirweddau, ac mae hi wedi gweithio ar amrywiaeth eang o safleoedd a thirweddau yn dyddio o'r cyfnod cynhanesyddol hyd heddiw.

Geowyddonydd morol a chydlynnydd y prosiect CHERISH ar ran Arolwg Daearegol Iwerddon ers mis Gorffennaf 2018 yw Dr Kieran Craven. Graddiodd gyda BSc mewn Geowyddoniaeth a Bioleg Amgylcheddol o Brifysgol St Andrews yn 2006 a chwblhaodd ei PhD mewn Daeareg o Goleg y Drindod Dulyn yn 2013. Pwnc ei ymchwil oedd effeithiau'r codiad yn lefel y môr ar amgylcheddau arfordirol. Mae Kieran wedi gweithio fel darlithydd yng Ngholeg y Drindod Dulyn ac ym Mhrifysgol Maynooth, a chyda rhaglen INFOMAR yr Arolwg Daearegol, yn dadansoddi technolegau acwstig i ddehongli amgylcheddau ar wely'r môr ac o dan yr wyneb.